



2015/2016

Arolwg Blynyddol



Gwneud opera'n bwysig, NAWR

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn credu bod opera'n bwysig nawr. Gall adlonni, denu a dod â phobl ynghyd. Yn ystod Tymor 2015/2016 rydym wedi dangos yn union beth all opera ei wneud.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod opera yn parhau i fod yn gelfyddyd ffyniannus, byw a gweithredol. I ni, mae opera nid yn unig yn cynnig nosweithiau allan gwyh, ond gall hefyd ysgogi trafodaeth a gofyn cwestiynau allweddol am y byd rydym yn byw ynddo. Roedd ein rhaglen o thema i'r tymor a dau berfformiad cyntaf yn y byd yn brawf o'n huchelgais artistig. Roedd clod beirniadol a gan y gynulleidfa ar gyfer ein perfformiadau yn cydnabod safonau artistig hynod uchel y Cwmni.

Yn ein barn ni, gall opera fod yn werthfawr i bawb a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Yn 2015/2016 fe gyrhaeddodd fwy o bobl mewn mwy o ffyrdd trwy ein

perfformiadau, ein gwaith gyda phobl ifanc ac mewn cymunedau lleol, gweithgaredd digidol a chyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol.

Y llynedd fe ddarparom fwy o gyfleoedd nag erioed o'r blaen i blant ac aelodau'r gymuned ar draws ein rhanbarthau teithio i gymryd rhan ym mhrosiectau a gweithdai'r WNO. Ymysg ein gweithgareddau roedd prosiectau addysg arloesol a chorau cymunedol.

Mae'r WNO yn gweithio'n galed i wneud y gorau o bob punt o fuddsoddiad cyhoeddus. Trwy gydol 2015/2016 fe ychwanegom at yr incwm hwnnw mewn sawl ffordd gan gynnwys gwerthiant tocynnau, codi arian a llogi cynrychiadau opera i gwmnïau eraill. Nid oes yr un prosiect yn 2015/2016 wedi dangos yn well beth all WNO ac opera ei wneud nag *In Parenthesis*:



In Parenthesis ASTUDIAETH ACHOS

I ddathlu 70 mlynedd o'r WNO ac i nodi canmlwyddiant Brwydr y Somme, fe gomisiynom opera newydd mawr. Mae *In Parenthesis*, a gyfansoddwyd gan Iain Bell gyda libreto gan Emma Jenkins a David Antrobus, yn addasiad dirdynol o gerdd fodernaidd epig David Jones. Mae'r opera yn dilyn y Milwr Cyffredin John Ball wrth iddo ef a'i gymrodyr o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig gael eu hanfon i'r Somme, gan ddyfod tua'r diwedd at erchyllterau Coedwig Mametz. Roedd *In Parenthesis* yn rhan allweddol o 14-18NOW, rhaglen gelfyddydau'r Deyrnas Unedig ar gyfer Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

'Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn arwain y gad ar gyfer gwaith newydd yn fwy ag unrhyw gwmni arall.'

Rian Evans, The Guardian ar *In Parenthesis*

'Pob chware teg i Opera Cenedlaethol Cymru, sydd wedi cyflwyno perfformiad cyntaf o waith newydd am yr ail dro'r tymor hwn gyda safon gerddorol sylweddol ac apêl uniongyrchol i'r gynulleidfa. Felly mae'n bosibl ei wneud; nid yw hanes opera wedi darfod eto.'

Rupert Christiansen, The Telegraph ar *In Parenthesis*

'Roedd *In Parenthesis* Iain Bell yn ddigwyddiad cofiadwy ar gyfer 14-18NOW, yr opera sylweddol cyntaf a gomisiynwyd i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymateb ysbrydoledig i gerdd wych David Jones, roedd gan *In Parenthesis* ran allweddol yn nigwyddiadau'r Deyrnas Unedig i goffau diwrnod cyntaf Brwydr y Somme.' **Nigel Hinds, Cyfarwyddwr Gweithredol, 14-18NOW**



In Parenthesis ASTUDIAETH ACHOS

Bu cyfanswm o 6,500 o bobl i weld *In Parenthesis* yng Nghaerdydd, Birmingham a'r Tŷ Opera Brenhinol, Llundain. Llwyddodd yr opera i gyrraedd, ac mae'n dal i gyrraedd, cynulleidfa fawr nad oeddynt yn gallu dod i un o'n perfformiadau, trwy brosiect ffyddio arloesol The Opera Platform a sgrinio mewn cyfres o sinemâu.

Helpodd ein gwefan a phodlediadau fideo penodedig ar gyfer *In Parenthesis* gynulleidfa ehangach i archwilio testun yr opera, y gerdd yr oedd yn seiliedig arni a'r broses o greu opera newydd.

'Roedd cynulleidfa orlawn Canolfan Mileniwm Cymru yn llawn clod.' **Richard Bratby, The Spectator** ar *In Parenthesis*

8,328 O sesiynau unigryw ar inparenthesis.org.uk

17,144 O bobl wedi gwyllo ein podlediadau fideo *In Parenthesis*

11,135 Wedi gweld *In Parenthesis* yn y sinema

Andrew Bidlack (Milwr John Ball) ac Alexandra Deshorties (Brenhines y Goedwig) yn *In Parenthesis*. Llun gan Bill Cooper

In Parenthesis ASTUDIAETH ACHOS

Roedd cyseinnedd themâu a thestun yr opera yn golygu bod *In Parenthesis* yn llwyfan perffaith ar gyfer rhaglen ehangach o waith yn ceisio cyrraedd tu hwnt i gynulleidfaoedd opera ac i ymgysylltu â phlant a chymunedau. Ar y cyfan, roedd y gwaith hwn yn cynnig cyfle i gynulleidfa eang na fyddai fel arfer yn dod ar draws y WNO i gael profiad o'r Cwmni ac i fyfrio ar ddigwyddiadau Brwydr y Somme.

Roedd perfformiad cyntaf y byd yn achlysur dirdynol. Ymunodd 80 o aelodau cyfredol a gorffennol y lluoedd arfog o Gatrawd Frenhinol Cymru gyda ni ar gyfer y perfformiad a'r seremoni agoriadol ar gyfer WNO *Field*.

'Mae'r opera hon wedi ei chreu ar gyfer a gyda'r gymuned; nid yn unig yng Nghymru, er bod ei anrhydeddu o Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru yn nawsio gosgeiddrwydd. Gan ddal gafael yn synwyrusrwydd barddonol Jones, mae'n weithred bwerus o goffâd ar gyfer yr "holl ddynion niferus hardd" fu'n brwydro yn Mametz.'

Steph Power, The Independent
ar *In Parenthesis*

'Roedd agoriad *In Parenthesis* ar 13 Mai yn noson aruthrol. Trwy'r cyfuniad o gynhyrchiad, Corws, prif gantorion a Cherddorfa, roedd yn brofiad dirgrynol iawn. Roedd presenoldeb cymaint o aelodau o Gatrawd Frenhinol Cymru a'r Llent Brydeinig Frenhinol, ynghyd ag agoriad y gosodiad *Field* yn gwneud y noson gyfan yn hynod ingol.'

Ian Douglas, Rheolwr Cwmni WNO

Perfformiad cyntaf y byd *In Parenthesis*



Gall defnyddwyr iOS wyllo'r fideo yma.

In Parenthesis ASTUDIAETH ACHOS

Roedd ein rhaglen waith o amgylch *In Parenthesis* yn denu plant, teuluoedd a chymunedau diffreintiedig tuag at opera. Cyrhaeddodd y prosiectau yn bell ac agos ar draws De Cymru i Ogledd Cymru a Lloegr.

Fe roddom gyfle i bobl heb fawr ddim neu ddim profiad o berfformio gyfle i ymuno â'r WNO trwy hoffter o ganu yn y diweddaraf o'n prosiectau Dewch i Ganu. Perfformiodd cyfranogwyr mewn digwyddiadau unigryw mewn amrywiaeth o leoliadau a digwyddiadau mawr yn cynnwys yn yr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yr Eisteddfod Ryngwladol ac yn y cyntedd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar noson agoriadol *In Parenthesis*.

Fe gysylltom gyda chymunedau mewn trefi a dinasoedd mor amrywiol â Chaernarfon a Southampton, sef rhai o'r manau ble roedd yr adran o Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru David Jones wedi eu lleoli yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd cyfranogwyr yn gallu cyflawni eu gweithredoedd coffâd eu hunain trwy ymchwilio i hanes teuluol o'r Rhyfel Byd Cyntaf ac yna cyd-greu opera byr yn seiliedig ar yr ymchwil hwnnw. Yna roeddynt yn gallu rhannu'r opera gyda'u teulu a ffrindiau mewn digwyddiad arddangosiad arbennig. Darparwyd y prosiect yn Southampton mewn partneriaeth â Mayflower Engage ac yng Nghaernarfon gyda Cofis Bach. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Llenyddiaeth Cymru a'u Canolfannau Awduron yng Nghymoedd De Cymru a Chasnewydd, fe helpom

ddatblygu sgiliau ysgrifennu'r cyfranogwr gyda chyflwyniad i ysgrifennu libreto ar gyfer opera.

Elwodd plant ysgol yn Abertawe, Caerdydd a'r Cymoedd, yn cynnwys ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, o'r rhaglen hon hefyd. Defnyddiodd ein prosiect Teach diweddaraf opera fel man cychwyn ar gyfer prosiect arloesol yn defnyddio cyfryngau digidol a chyfansoddiad cerddorol, wedi ei gynllunio i roi profiad cyntaf positif o opera ac i hybu sgiliau llythrennedd digidol plant.

OUTSTANDING
ART WORK
QUEEN OF
THE WOODS")

In Parenthesis ASTUDIAETH ACHOS

Daeth **WNO Field**, ein gosodiad digidol ar raddfa fawr, â'r WNO i gysylltiad gyda nifer o bobl na fyddai fel arfer yn cael profiad o'n gwaith.

Roedd *Field* yn waith celf trwythol ac yn goffâd i'r 923 o Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a fu farw ym Mrwydr y Somme yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac sydd heb fedd hysbys. Roedd y 923 o oleuadau yn cynrychioli'r nifer o ffiwsilwyr coll y mae eu henwau wedi eu harysgrifio ar Gofeb Thiepval yn Ffrainc. Byddai rhai o'r dynion hyn wedi gwasanaethu gydag awdur In Parenthesis, David Jones, yn ystod y frwydr yng Nghoedwig Mametz yng Ngorffennaf 1916. Anogwyd pob ymwelydd i ryngweithio gyda'r gosodiad ac i dalu teyrnged yn ei ffordd ei hun. Roedd y gosodiad ar agor yn ddyddiol am chwe wythnos tu allan i Ganolfan Mileniwm Cymru gyda mynediad am ddim.

52,000 o ymwelwyr wedi eu cofnodi i WNO Field

'Fy uchafbwynt yn nhymor 2015/2016 heb os oedd noson agoriadol yr opera newydd In Parenthesis. Yn dilyn y perfformiad cefais y fraint o chwarae *The Last Post*, i gofio'r milwyr o Gymru a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd gosodiad goleuadau *Field* y WNO yn deyrnged gyfoes addas i'r rhai a gollwyd.'

Dean Wright, Cerddorfa WNO



Gall defnyddwyr iOS wyllo'r fideo yma. ▶

WNO Field
Llun gan Max Budgett

Opera gwych, NAWR

Rydym yn dal i sicrhau bod opera'n rhywbeth byw ac egniol. Yn 2015/2016 fe gyfunodd ein rhaglen thema dymhorol weithiau gwych nad ydynt yn cael eu perfformio'n aml, operâu newydd mawr, darn o theatr gerddorol a chlasuron poblogaidd. Cyflwynom gyfres o saith cynhyrchiad newydd yn cynnwys dau berfformiad cyntaf rhyngwladol.

Fe gadarnhaodd y flwyddyn ein henw da ar gyfer cynyrchiadau blaengar, pryfociol a pherfformiadau gwych gan ein dau ensemble – Corws a Cherddorfa'r WNO, staff cerddorol yn ogystal ag artistiaid ac arweinyddion gwadd. Ffarweliodd cynulleidfaoedd ac aelodau'r cwmni â Lothar Koenigs wrth i'w gyfnod hynod bwysig a dylanwadol fel Cyfarwyddwr Cerddorol y WNO ddod i ben.

Yn yr Hydref 2015, daeth ein Tymor Gwallgofrwydd â thri gwaith gwahanol iawn ynghyd (*I puritani*, *Orlando a Sweeney Todd*). Gyda'i gilydd roedd y tri darn yma yn archwilio effeithiau cythrwfl emosiynol a meddyliol ar y rhai sy'n dioddef yn uniongyrchol yn ogystal â'r byd o'u cwmpas. Yng Ngwanwyn 2016, rhoddodd Tymor Figaro Forever gyfle i gynulleidfaoedd ddilyn anturiaethau un o gymeriadau mwyaf hoffus y byd opera mewn cynyrchiadau newydd o ddau opera clasurol a pherfformiad cyntaf y byd (*The Barber of Seville*, *The Marriage of Figaro* a *Figaro Gets a Divorce* gan Elena Langer). Perfformiwyd y tri chynhyrchiad ar yr un set aruthrol, a gynlluniwyd gan un o eiconau theatr wedi rhyfel, Ralph Koltai. Yn Haf 2016, fe ddathlom ein 70ain mlwyddiant gyda 70 Mlynedd o WNO.

Edrychom yn ôl ar ein cynhyrchiad cyntaf erioed gyda pherfformiadau o gynyrchiadau hoffus Elijah Moshinsky o *Cavalleria rusticana* a *Pagliacci*. Roeddem hefyd yn edrych ymlaen at addasiad operatig o gerdd Rhyfel Byd Cyntaf David Jones *In Parenthesis* gan Iain Bell.

Perfformiadau cyntaf y byd
Figaro Gets a Divorce, In Parenthesis

Cynyrchiadau newydd
I puritani, Orlando, Sweeney Todd, The Barber of Seville, The Marriage of Figaro

Revival
Cavalleria rusticana & Pagliacci

40 graddiad pum seren mewn print ac ar-lein

1,961 sylw yn y wasg

97 perfformiad opera mewn 10 o drefi a dinasoedd ledled Cymru a Lloegr

Cyfrôdd *I puritani* y beirniaid gyda chynhyrchiad deallus, llawn gwefr gan Annilese Miskimmon a pherfformiad trawiadol gan y soprano Rosa Feola, sy'n prysur ddod yn fwyfwy adnabyddus.

'...llwyfaniad cyfareddol newydd Annilese Miskimmon.' **Richard Morrison, The Times ar *I puritani***

'Troellodd Rosa Feola felodïau troellog Elvira i aur.' **Steph Power, The Independent ar *I puritani***

'Ers i mi ymuno â'r WNO yn Rhagfyr 2015 rydw i wedi fy synnu gan y casgliad hynod ac ymroddedig o gantorion, cerddorion, crefftwyr, technegwyr a gweinyddwyr sy'n creu'r WNO. Roedd comisiynu'r opera newydd sbon *In Parenthesis* yn rhan o'n dathliadau 70ain mlynedd ac i nodi canmlwyddiant Brwydr y Somme yn enghraifft berffaith o beth mae'r Cwmni yn ei gyfanwydd yn ei wneud. Roedd amrywiaeth enfawr o weithgareddau celfyddydol, digidol, cymunedol ac ysgolion ac amrywiol brosiectau partneriaeth nid yn unig yn ymestyn cynulleidfau'r WNO, ond hefyd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac yn sicrhau ymgysylltu pellgyrhaeddol. Fe arddangosodd berthnasedd Opera Cenedlaethol Cymru wrth iddo barhau i gryfhau ei le fel rhan ganolog o'n cymdeithas artistig a dinesig ac mewn cymunedau ar draws Cymru a thu hwnt.'

Leonora Thomson, Rheolwr Gyfarwyddwr, Opera Cenedlaethol Cymru



Rosa Feola (Elvira) a Barry Banks (Arturo) yn *I puritani*.
Llun gan Bill Cooper

Yn Opera Cenedlaethol Cymru credwn fod opera yn bwysig a pherthnasol. Yn 2015/2016 cyflwynodd WNO ddau berfformiad cyntaf y byd a gafodd ganmoliaeth feirniadol. Yn ogystal ag *In Parenthesis* fe gyflwynom *Figaro Gets a Divorce* yn y Gwanwyn 2016.

Gyda cherddoriaeth gan Elena Langer a libreto gan David Pountney, roedd *Figaro Gets a Divorce* yn ailafael yn anturiaethau hoff farbwr opera i greu myfyrdod teimladwy ar fywydau sy'n cael eu cymhlethu gan derfysg rhyfel a chwyldro.

'...y peth prin yna: opera fodern sy'n cael effaith emosiynol uniongyrchol.' **Rupert Christiansen, The Telegraph ar *Figaro Gets a Divorce***

'...opera newydd gyda sgôr hyfryd.' **George Hall, The Stage ar *Figaro Gets a Divorce***

'Uchafbwynt y flwyddyn i mi oedd perfformiad cyntaf opera Elena Langer, *Figaro Gets a Divorce*. Gyda'r perfformiad hwn, mae'r WNO wedi arddangos ei ymroddiad i waith newydd, a chynhyrchu opera sy'n dathlu cymeriadau cyfarwydd o *The Marriage of Figaro* mewn plot dramatig newydd tynn, oedd yn symud tuag at ddiwedd tyner teimladwy a wefreiddiodd ein cynulleidfaoedd.'

David Pountney, Cyfarwyddwr Artistig WNO



Alan Oke (The Major) a Rhian Lois (Angelika) yn *Figaro Gets a Divorce*.
Llun gan Richard Hubert Smith

'Roedd y perfformiadau yn ategu rhagoriaeth y cwmni opera safon byd hwn sy'n gallu edrych ymlaen at ragor o lwyddiant yn y 75 mlynedd nesaf, yn arbennig wrth geisio dwysau ei berthynas gyda'r cymunedau Cymreig a'i magodd.'

Peter Collins, The Western Mail
ar *Cavalleria rusticana* a *Pagliacci*

Ynghyd â pherfformiad cyntaf y byd o *In Parenthesis* buom yn dathlu 70 mlynedd o'r WNO yn yr Haf 2016 gydag adfywiad o'r operâu cyntaf erioed i ni eu perfformio – *Cavalleria rusticana* a *Pagliacci*.

'Fe weithiais ar ystod eang o brosiectau yn ystod blwyddyn y 70ain mlwyddiant, gan arwain *I puritani* nad yw'n cael ei berfformio'n aml, gwaith newydd Iain Bell *In Parenthesis*, y clasur *Cavalleria rusticana* a *Pagliacci* (a berfformiodd y WNO yn ei dymor cyntaf yn ôl yn 1946) yn ogystal â chyngerdd cofiadwy gyda Chorws Cymunedol y WNO. Mae cymaint o amrywiaeth yn arddangos cryfder aruthrol y WNO, yn arloesi a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd tra hefyd yn anrhydeddu'r gorffennol a denu'r cyhoedd i gymryd rhan. Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn gwmni opera aruthrol, wedi ei greu gan y bobl ar ran y bobl ac, fel cyn Gyfarwyddwr Cerddoriaeth a nawr yn Arweinydd Llawryfog, mae'n fraint i mi gael dod yn ôl i arwain yma.' **Carlo Rizzi, WNO Conductor Laureate**

Gwyn Hughes Jones (Canio) yn *Pagliacci*.
Llun gan Bill Cooper





Mae ein dau ensemble, Corws a Cherddorfa'r WNO, yn ganolog i'r Cwmni. Trwy gydol Tymor 2015/2016 roeddynt yn parhau i fod yn elfennau allweddol i lwyddiant artistig parhaus y Cwmni.

- 'Roedd Corws a Cherddorfa ysbrydol y WNO ar eu gorau.'
Fiona Maddocks, The Observer ar *I puritani*
- 'Mae Corws a Cherddorfa'r WNO yn perfformio gyda balchder.'
Rian Evans, The Guardian ar *Cavalleria rusticana & Pagliacci*
- 'Wrth fy modd gydag *Orlando* Handel, ei leoliad cywrain a dyfeisgar o'r 1940au a rhoi'r rhan o 'nyrs ysbyty' i rôl y teitl.'
Helen Greenaway, Corws WNO

Cerddorfa'r WNO.
Llun gan Kirsten McTernan

15,933

cyfanswm y nifer o bobl a fynychodd gyngerdd WNO

12 cyngerdd cerddorfa mewn naw lleoliad

900

o blant wedi mynychu ein Cyngerdd Teuluol

Cyngerdd Teuluol



Gall defnyddwyr iOS wyllo'r fideo yma. ▶

Tu hwnt i'r prif lwyfan

Mae Cerddorfa WNO yn brysur ar bob adeg ac mae ei weithgaredd cyngherddau yn helpu sicrhau bod perfformiadau gwyh o fewn cyrraedd ar draws ein rhanbarthau teithio ar bob adeg. Roedd galw mawr am ein Cerddorfa mewn gwyliau a Neuaddau Cyngerdd ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd eu perfformiadau yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd yn rhan allweddol o'r Gyfres o Gyngherddau Rhyngwladol, yn perfformio gweithiau poblogaidd ynghyd â chomisiynau newydd.

Un uchafbwynt oedd y cyngerdd *Tosca* gyda Bryn Terfel a gafodd dderbyniad afieithus yn rhan o ddathliadau 10 mlynedd Canolfan Mileniwm Cymru.

Bydd ein rhaglen newydd o Gyngherddau Teuluol yn rhoi blas cyntaf i nifer o blant o opera a cherddoriaeth glasurol. Croesawodd y cyngerdd cyntaf, oedd yn hwyl enfawr, tua 900 o blant. Gan ddefnyddio technoleg ddigidol, gweithgareddau cyn y sioe ac annog awyrgylch ymlaciol, roedd hwn yn brofiad dengar, rhyngweithiol a hudolus. Roedd prisiau tocynnau wedi eu pennu i sicrhau y gallai teulu fynychu heb orfod talu mwy na £30.

'Prynhawn gwyh i ni oedolion a'n plant (yn 6 i 11 oed). Roedd wir wedi eu hysbrydoli a swyno. Gwaith da iawn.' **Mynychwr Cyngerdd Teuluol**



Gwneud gwahaniaeth, NAWR

Mae'r effaith mae Opera Cenedlaethol Cymru yn ei chael ar fywyd diwylliannol Cymru a Lloegr yn parhau i gael cydnabyddiaeth gan lunwyr polisi a ffigurau allweddol mewn bywyd cyhoeddus.

'Rydym yn falch i allu cefnogi Opera Cenedlaethol Cymru, cwmni sy'n dathlu ei 70ain mlwyddiant ac sy'n parhau i fod yn ganolog i fyd celfyddydol ffyniannus. Mae'r WNO yn darparu profiadau aruthrol trwy berfformio gwaith newydd am y tro cyntaf ac ailddyfeisio'r hen. Maent yn profi i gynulleidfaoedd, adref a thu hwnt, fod opera yn fywiog, yn ffurf wirioneddol gyfoes o gelfyddyd. Trwy ddarparu llwyfan i rai o'n cantorion, technegwyr, dylunwyr, cerddorion a chyfansoddwyr gorau, mae WNO hefyd yn allweddol i'n heconomi greadigol.'

Phil George, Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

'Mae Arts Council England yn falch o'n perthynas hirdymor gydag Opera Cenedlaethol Cymru a'i raglen deithiol yn Lloegr. Mae'r cerrig milltir a chynrychiadau arloesol dros eich 70 mlynedd hynod yn rhy niferus i'w henwi, ond rydym yn dymuno llawer mwy ohonynt i ddod i chi.'

Peter Phillips, Cadeirydd Ardal Canolbarth Lloegr, Arts Council England

Estyn yn bellach, NAWR

Yn 2015/2016 cyrhaeddodd y WNO fwy o bobl mewn mwy o ffyrdd. Gyda nifer o fynychwyr newydd, cynulleidfa ddigidol gynyddol, sgrinio mewn sinemâu, darllediadau digidol a phrosiectau eraill, rydym wedi cysylltu gyda chynulleidfaoedd ymhell tu hwnt i'r theatr.



117,587

cyfanswm y nifer o bobl y perfformiwyd iddynt

3,971

£5 tocynnau i rai dan 30

13,000

amcangyfrif o'r nifer yn mynychu am y tro cyntaf

Trydar yn canmol y WNO yn cynnwys:

'Mae opera *Figaro Gets a Divorce* yn ardderchog. Cerddoriaeth wych, cynhyrchiad gwyh, opera wych.'

Debra Swain

'Roedd *In Parenthesis* neithiwr yn wefreiddiol iawn, roedd y canu a'r setiau yn rhagorol, teyrnged wych i David Jones.'

Trevor McCrory

Cyrhaeddodd ein prif berfformiadau bron i 100,000 o bobl, yn cynnwys nifer uchel yn mynychu eu perfformiad WNO cyntaf. Manteisiodd mwy o bobl ifanc nag erioed o'r blaen ar ein tocynnau Dan 30 oed am £5.

'Mae'r sioe yn llwyddiant grymus ym mhob ystyr.' **Mark Shenton, The Stage ar *Sweeney Todd***

Sweeney Todd. Janis Kelly (Mrs Lovett) a Chorws y WNO. Llun gan Johan Persson

Yn 2015/2016 fe gyhoeddodd fwy o bobl yn ddigidol nag erioed o'r blaen. Tyfodd ein cynulleidfa cyfryngau cymdeithasol a nifer o ddefnyddwyr unigryw ar y wefan yn arwyddocaol. Cyflawnwyd y twf hwn trwy gynnwys digidol dynamig oedd yn cynnwys ymgyrch Twitter 70 mlynedd o'r WNO a recordio darlenniad o ran o'r gerdd wreiddiol *In Parenthesis* gan yr actor Michael Sheen.

Yn ystod Tymor 2015/2016 sicrhaom broffil uchel ar gyfryngau cymdeithasol gyda phresenoldeb cynaliadwy a pharhaus yn y wasg genedlaethol a lleol. Canfuom ddulliau newydd o gyfathrebu ein negeseuon megis darparu cynnwys digidol yn rhan o adloniant British Airways yn yr awyren. Roedd darllediad rhaglen ddogfen BBC Wales yn canolbwyntio ar ein cynhyrchiad o *In Parenthesis*, yn ogystal â darllediadau ar Radio 3 a The Opera Platform, â'r flwyddyn i glo wrth i ni gyrraedd mwy o bobl mewn mwy o lefydd yn ddigidol.

37,003

cyfanswm cynulleidfa cyfryngau cymdeithasol (cyfanswm nifer o bobl yn ein dilyn ar ein hamrywiol ffrydiau cyfryngau cymdeithasol)

169,431

defnyddwyr unigryw ar y wefan

152,455

cyfanswm y nifer o ymgysylltiadau cyfryngau cymdeithasol (cyfanswm nifer a hoffodd, rannodd ac a roddodd sylw ar draws ein ffrydiau cyfryngau cymdeithasol)

87,070

wedi hoffi ar Facebook

120,542

wedi gwyllo ar YouTube

1,267

wedi hoffi ar Instagram

4,745

o ddilynwyr newydd ar Twitter

Ymgysylltu â chymunedau, NAWR

Mae opera yn uno pobl. Mae nifer o fuddion i ganu ac rydym yn awyddus i'w rhannu â mwy o bobl. Roedd ein hadran leuenctid a Chymuned yn brysurach nag erioed, yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl o wahanol gefndiroedd i gymryd rhan yn ein prosiectau.

Mae gwreiddiau Opera Cenedlaethol Cymru yn y gymuned leol. I anrhydeddu'r gwreiddiau hyn yn ein 70ain blwyddyn ac i ddod â phobl ynghyd sy'n hoff o ganu, fe sefydlwyd côr cymunedol eleni. Mae Corws Cymunedol y WNO yn rhoi cyfle i gyfranogwyr gymryd rhan a chael eu cynnwys yn y gymuned yn WNO. Lansiodd y prosiect hwn gyda pherfformiadau yn y cyntedd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru a'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Roedd Corws Cymunedol y WNO yn ganolog i gyngerdd arbennig i ddatlu 70 mlynedd o'r WNO. Roeddynt yn perfformio ochr yn ochr â Cherddorfa'r WNO, unawdwyr o Goleg Cerdd a Drama Cymru a Chôr Forget-me-Not, elusen sy'n cefnogi pobl gyda dementia a'u teuluoedd gyda sesiynau canu wythnosol. Roedd y cyngerdd hwn yn rhan o Ŵyl y Llais Canolfan Mileniwm Cymru ble buom hefyd yn cymryd rhan yn y prosiect Access All Arias i ddod ag opera i sefyllfaoedd ac amgylcheddau beunyddiol.

Fe gyrhaeddodd ein gwaith mewn cymunedau ar draws ein rhanbarthau teithiol. Cynhaliwyd prosiectau Dewch i Ganu yng Nghaerdydd, Llandudno ac yng Nghanolfan Cymru Llundain, yn ogystal â phrosiectau cymunedau Opera Engage yn Southampton a Chaernarfon.

'Diolch am bopeth a wnaethoch chi a'ch tîm ar ein cyfer. Profiad gwych o'r dechrau i'r diwedd.' **Helen Timms, aelod o Gorws Cymunedol y WNO**

'Diolch am wneud y profiad yn un mor hyfryd o gofiadwy. Roedd yn fraint i bob un ohonom allu cymryd rhan ac rydym yn ddiolchgar i ni gael ein trin mewn modd mor broffesiynol.' **Sarah Driscoll, aelod o Gorws Cymunedol y WNO**

16,699

cyfanswm nifer o gyfranwyr

283

cyfanswm nifer o sesiynau cyfranogol

2,686

cyfanswm nifer aelodau'r gynulleidfa leuenctid a Chymunedol

8

perfformiad leuenctid a Chymunedol

Corws Cymunedol. Llun gan Kirsten McTernan



Ymgysylltu â phlant, NAWR

Ein huchelgais yw sicrhau bod plant ar draws ein rhanbarthau teithiol ac o bob cefndir cymdeithasol ac economaidd yn cael mynediad hawdd, rheolaidd i opera. Ein nod yw bod mewn ysgolion pob wythnos yn ysbrydoli plant yng Nghaerdydd a thu hwnt. Mae ein prosiectau addysgol yn gwneud mwy na dim ond rhoi profiad cyntaf cofiadwy o opera i blant. Maent yn defnyddio cyfryngau digidol i gyrraedd a rhyddhau creadigrwydd cynhenid pob plentyn, yn ogystal â hybu eu llythrennedd digidol.

Bu'r prosiect Sweeney Teach yn ymgysylltu â phlant rhwng 7 ac 11 oed ar draws De Cymru

'Mae digwyddiad heddiw wedi bod yn wych; mae wedi bod yn gyfle i'n myfyrwyr ddysgu am wahanol gelfyddydau a'r ffordd maent wedi gallu creu rhywbeth gyda'i gilydd. Felly maen nhw wedi gallu llunio hynny yn yr ysgol ei hun ac yna wedi gweld y cynnyrch terfynol yma heddiw...'


Steven Davies, Pennaeth, Ysgol Gynradd Willowbrook, Caerdydd

Sweeney Teach



Gall defnyddwyr iOS
wyllo'r fideo yma.

Prosiect Sweeney Teach. Llun gan Kirsten McTernan



Y dyfodol, NAWR

Rhaid i ni fuddsoddi mewn opera heddiw i sicrhau dyfodol cryf. Mae ein Hopera leuenctid WNO, cynllun Artist Cyswllt, rhaglenni Ochr yn Ochr â lleoliadau gwaith yn gwneud yn union hynny, trwy feithrin talent ifanc ar draws ystod eang o sgiliau.



Cantorion y dyfodol

Mae'r WNO yn ymroddedig i feithrin talent opera ifanc, ysbrydoli pobl ifanc a rhyddhau eu potensial creadigol. Mae ein rhaglen Opera leuencid yn rhoi cyfleoedd unigryw i bobl ifanc 14 – 25 oed sydd eisiau canu a pherfformio. Mae cyfranogwyr yn elwa o'r gefnogaeth gynnes ac arbenigol a gynigir gan weithwyr y WNO i helpu datblygu eu talent.

Mae pob grŵp oedran yn cael cyfle rheolaidd i berfformio ac arddangos eu gwaith i gynulleidfa wadd. Pob dwy flynedd, mae'r grŵp 19 – 25 yn cyflwyno cynhyrchiad sylweddol. Ar hyd y blynyddoedd, mae'r ensemble wedi magu enw da am safonau cerddorol uchel iawn. Eleni fe gyflwynont gynhyrchiad newydd o waith Syr Peter Maxwell Davies, *Kommilitonen!* yng Nghanolfan Celfyddydau MEMO, y Barri, a gafodd glod gan gynulleidfaoedd a beirniaid.

Mae ein rhaglen Artist Cyswllt yn rhoi cyfleoedd heb eu hail i artistiaid proffesiynol newydd i ddatblygu eu crefft. Eleni mae Gyula Nagy, ein Hartist Cyswllt, wedi perfformio rôl Silvio yn *Pagliacci*.

Kommilitonen! Corws yn ymarfer. Llun gan David Massey

'Diolch o galon gan Nora a minnau am y cyfle i barhau i fynychu'r dosbarthiadau YO am drydydd tymor. Fe wellodd hyder Nora ar y llwyfan, ac mae wedi gwneud ambell ffrind ac, wrth gwrs, yn canu o'r galon ar bob achlysur. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn. Roeddem hefyd eisiau dymuno'n dda i chi ar gyfer eich perfformiadau gwych. Maen nhw'n ddyddiau gwych i'w cofio i'r plant a'u teuluoedd. Diolch i chi am eich holl waith caled!'

Raffa Perra*Carta* (parent 10 – 14 age group)

'...y cynhyrchiad gwych hwn...opera dogfennol ar ei mwyaf dengar...mae arddull gynhwysol, trwythol, llwyfaniad rhodianna Polly Graham bron yn sinematig yn ei hyfdra...ymdrech wych gan y tîm.'

Rian Evans, *The Guardian on Kommilitonen!*

Perfformwyr y dyfodol

Mae creu opera wych yn waith tîm. Mae angen ystod eang o sgiliau ac arbenigedd i gefnogi ein gwaith ar y llwyfan. Yn y WNO, mae rhaglenni datblygu proffesiynol yn cynnig cyfle i gerddorion ac unigolion creadigol ifanc i feithrin sgiliau sy'n allweddol i ddatblygiad eu gyrfaedd. Aeth cyn aelodau'r cynlluniau hyn ymlaen yn 2015/2016 i sicrhau rolau llawn amser parhaol yn y Cwmni. Rhoddodd ein cynlluniau interniaeth ragflas cyntaf gwerthfawr iawn i weinyddwyr a thechnegwyr ifanc o weithio yn y celfyddydau.

Pagliacci. Gyula Nagy (Silvio) a Meeta Raval (Nedda). Llun gan Bill Cooper

Gyda'n gilydd, NAWR

Mae'r WNO yn ganolog i'r gymuned gelfyddydau ar draws y rhanbarthau ble byddwn yn teithio. Yn 2015/2016 fe weithiom gyda nifer enfawr o sefydliadau celfyddydol i ddysgu mwy o bobl i ddadlau o blaid y celfyddydau.

Mae gan Opera Cenedlaethol Cymru nifer o ffrindiau ledled y byd. Mae ein perthynas gyda chwmnïau opera eraill yn rhyngwladol yn ein helpu i lwyfannu operâu gwyh.

‘Allwn i ddim meddwl am gwmni gwell i weithio gyda nhw ar *I puritani* Bellini na'r WNO. Roedd arbenigedd cerddorol, dramatig a thechnegol y tîm yno yn ei wneud yn benderfyniad hawdd nid yn unig i gyfarwyddo, ond i gyd gynhyrchu'r opera gyda fy nhîm yn Opera Cenedlaethol Denmarc. Mae'r sioe yn teithio ymlaen i Barcelona yn 2018 – mae'r tri chwmni wedi llwyddo i ganfod ffordd gynhyrchiol a chydweithredol o gynhyrchu darn theatrig heriol a drud ar raddfa fawr. Dyma gyd gynhyrchiad opera rhyngwladol ar ei fwyaf ffrwythlon.’ **Annilese Miskimmon, Cyfarwyddwr Artistig, Opera Cenedlaethol Denmarc**

Cyd gynyrchiadau yn 2015/2016


West Yorkshire Playhouse, Leeds **Sweeney Todd**
Tŷ Opera Cenedlaethol Denmarc, Aarhus, Denmarc **I puritani**
Grand Théâtre de Genève, Genefa, Y Swistir
The Barber of Seville, The Marriage of Figaro

Mae **Cardiff Theatrical Services (CTS)**, is-gwmni dan berchnogaeth lwyr y WNO, yn un o'r cwmnïau adeiladu golygfeydd mwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig.

Yn 2015/2016 darparodd CTS wasanaethau ar gyfer nifer o wahanol sefydliadau yn cynnwys:

BBC Worldwide, English National Opera, Headlong Impossible Touring Ltd, Importance Of Being Ernest Ltd, Lyric Theatre Hammersmith, Lyric Opera Chicago, Theatr Genedlaethol Cymru, Old Vic Productions, Opera North, The Royal Opera House, Royal Court Theatre, The Royal Shakespeare Company, Sonia Freidman Productions, National Theatre, Vaudeville Productions, Chichester Festival Theatre, West Yorkshire Playhouse, Young Vic, Canolfan Mileniwm Cymru a Walk the Plank.

- 5 y nifer o gyd gynyrchiadau a gyflwynom
- 5 y nifer o gyd gynyrchiadau a gyflwynwyd gan dai opera eraill
- 6 y nifer o gwmnïau opera a logodd ein cynyrchiadau.



Cynhyrchiad rhwng Opera Cenedlaethol Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a West Yorkshire Playhouse mewn cydweithrediad gyda'r Royal Exchange Theatre. David Arnsperger (Sweeney Todd) a Janis Kelly (Mrs Lovett) yn *Sweeney Todd*. Llun gan Johan Persson

Partneriaethau

Trwy gydol 2015/2016 fe weithiom gyda sefydliadau o bob maint i gyrraedd cynulleidfaoedd ac i hyrwyddo'r gorau o fyd y celfyddydau. Ymysg y sefydliadau hynny roedd:

- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Arts Active
- Artworks
- Birmingham Conservatoire
- Birmingham Hippodrome
- CADW
- Canolfan Mileniwm Cymru
- CânSing
- Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC
- Chapter
- Cofis Bach, Caernarfon
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Eisteddfod Genedlaethol
- Forget Me Not Chorus
- Galeri, Caernarfon
- Llenyddiaeth Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Liverpool Empire Theatre
- Lumen Prize
- Mayflower Engage
- Mayflower Theatre, Southampton
- Milton Keynes Theatre
- Neuadd Dewi Sant
- New Theatre, Oxford

- Opera Engage
- Opera Europa
- Orielau Genedlaethol Cymru
- Pontio, Bangor
- Rawffest, Gŵyl Celfyddydau Ieuenctid Cymru
- Reseo Opera and Dance Network
- Royal British Legion
- South Central Education Works
- The Bristol Hippodrome
- The Opera Platform
- The Orchestra Consortium
- The Space
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Theatre Royal, Plymouth
- Trinity Laban
- Venue Cymru, Llandudno

Gwerth gwych, NAWR

Ar draws ein gwaith yn y WNO, rydym yn gwneud y gorau o bob ceiniog o'r buddsoddiad cyhoeddus a dderbyniwn. Rydym yn gweithio'n galed i ychwanegu at yr incwm hwn gyda gwerthiant tocynnau, codi arian, llogi cynyrchiadau a gweithgareddau masnachol eraill.

'WNO yw un o sefydliadau mwyaf hynod Cymru, yn tyfu dros 70 o flynyddoedd anhygoel i fod yn gwmni opera a gydnabyddir yn rhyngwladol gydag enw da ledled y byd. Yn ogystal â pherfformiadau opera byw, mae'r Cwmni yn awyddus i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a mwy amrywiol yn ddigidol a thrwy ystod o brosiectau ysgolion, ieuenctid a chymunedol yng Nghymru a Lloegr. Gallwn ymfalchïo yn llwyddiant y Cwmni, y gwerth mae'n greu a'i gyfraniad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd.'


Mark Molyneux, Chairman, Welsh National Opera

'Mae rhaglennu llawn dychymyg David Pountney wedi cadw'r cwmni ymysg arweinwyr cynyrchiadau opera'r Deyrnas Unedig. Rydw i wedi dod yn gynyddol ymwybodol o gyfraniad enfawr y WNO i ddiwylliant a chymdeithas Cymru gyda'i raglen leuenctid a Chymunedol, oedd yn amlwg gyda chynhyrchiad yr haf o *Kommilitonen!* yn y Barri.'

Andrew Fletcher, WNO Supporter


'Rydym yn falch o'r cyfle i weithio gyda'r WNO oherwydd fel brand premiwm Cymreig, mae Penderyn yn ceisio cynrychioli "Cymru i'r byd" gan chwilio am bartneriaethau gyda sefydliadau sy'n gallu gwneud yr un peth. Mae'r broses o greu Whisgi Brag Sengl Cymreig yn gyfuniad arbennig o gelf a gwyddoniaeth. Rydym yn dathlu'r WNO yn rhan o dreftadaeth artistig gyfoethog Cymru ac oherwydd bod y WNO yn parhau i ddarparu profiad o safon byd i'w gynulleidfaoedd ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd brand premiwm ninnau.'

Stephen Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr, Whisgi Penderyn



Incwm

- Grantiau cyhoeddus gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Arts Council England
- Incwm arall a enillir
- Incwm swyddfa docynnau
- Codi arian
- Cardiff Theatrical Services – setiau trydydd partïon



Gwariant

- Opera
- Cardiff Theatrical Services – setiau trydydd partïon
- Costau cefnogaeth
- Marchnata a datblygu'r gynulleidfa
- Prosiectau leuenctid a Chymunedol
- Costau codi arian

Diolch

Hoffai Opera Genedlaethol Cymru fynegi diolch i gefnogwyr yn ystod 2015/2016:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council England
14-18 NOW: Comisiynau Celf Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, gyda chefnogaeth y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac Arts Council England a gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

Partneriaid Busnes a Noddwyr
Celfyddydau a Busnes Cymru
Cymdeithas Porthladdoedd Prydain
Capital Apartments
Gwesty a Sba Chewton Glen
Eversheds LLP
Champagne Laurent Perrier
MAC Cosmetics
Mosimann's
Penderyn Distillery
Lexus Caerdydd
Llywodraeth Cymru
Walpole
Go Compare
Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Busnes yn y Gymuned

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau
Ymddiriedolaeth Elusenol Angus Allnatt
Ymddiriedolaeth Boltini
Ymddiriedolaeth William A Cadbury
Ymddiriedolaeth Elusenol Leonard Chadwick
Cockayne – Grants for the Arts
Sefydliad John S Cohen
Ymddiriedolaeth Elusenol Colwinston
The London Community Foundation
Elusen Gwendoline a Margaret Davies
Cronfa Dunard
Ymddiriedolaeth Elusenol John Feeney
Ymddiriedolaeth Joseph Strong Frazer
Ymddiriedolaeth Elusenol Joyce Fletcher
Sefydliad Genesis
Ymddiriedolaeth Elusenol Gibbs
G C Gibson Settlement
Ymddiriedolaeth Elusenol Simon Gibson
Sefydliad Jane Hodge
Sefydliad Jenour
Bwsariaeth Greadigol Weston Jerwood
Ymddiriedolaeth Nicholas John
Ymddiriedolaeth Kobler
Sefydliad Kirby Laing
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Sefydliad Millichope
The Space
Unity Theatre Trust
Ymddiriedolaeth Elusenol Barbara Whatmore
Sefydliad Garfield Weston
Worshipful Company of Spectacle Makers
Sefydliad Wolfson
Ymddiriedolaeth Elusenol 29th May 1961
2 diennw

Cylch y Cyfarwyddwr Artistig
Anthony ac Elizabeth Bunker
Ann a Giles Currie
Andrew Fletcher
David Macfarlane
Marian a Gordon Pell
Mathew Prichard
Clive a Sylvia Richards
John Ward

Noddwyr Diemwnt
Philippa a David Seligman

Gŕp Comisiynau WNO
Anthony ac Elizabeth Bunker
Syr Alan a Bonesig Cox
Geraint ac Elizabeth Talfan Davies
Dr Julia Ellis
Luke Gardiner
Mrs Paula Hyman
Peter a Veronica Lofthouse
David Macfarlane
William a Felicity Mather
Marian a Gordon Pell
Dr David Speller
John Ward
Dienw

Syndicâd Bel Canto WNO
Clive a Sylvia Richards
Neville a Nicola Abraham
Dienw
Dr Julia Ellis
Colin a Sylvia Fletcher

Harry Hyman
Judith Lewis
Syr Timothy a'r Fonesig Lloyd
David Macfarlane
William a Felicity Mather
Hugh ac Eleanor Paget
Sebastian a Frances Payne
Marian a Gordon Pell
Mr a Mrs Anthony Pitt-Rivers
Ivor Samuels a Gerry Wakelin
John Ward
Martin a Veronica Warner

Bwsariaethau'r WNO
Ysgoloriaeth Anthony Evans
Bwsariaeth Chris Ball
Gwobr Syr John Moores
Bwsariaeth y Teulu Parry
Bwsariaeth Schäfer
Ymddiriedolaeth Mary Warner

Partneriaid y WNO
Noddwr: Bryn Terfel CBE

Cylch Cerddorfa'r WNO

Cymdeithas Idloes Owen y WNO

Cyfeillion y WNO

Cyfeillion Americanaidd y WNO

Edrych i'r dyfodol

Ymysg yr uchafbwyntiau i edrych ymlaen atynt yn 2016/2017 mae:

Cynyrchiadau newydd yn cynnwys *Macbeth*, *The Merchant of Venice*, *Kiss Me, Kate*, *Le Vin herbé* a *Der Rosenkavalier*

Adfywiadau o glasuron yn cynnwys *Madam Butterfly*, *La bohème* a *Die Fledermaus*

Cynyrchiadau cyntaf dan arweiniad Cyfarwyddwr Cerddorol newydd y WNO Tomáš Hanus (*Die Fledermaus* a *Der Rosenkavalier*)



Cadw mewn cysylltiad â WNO wno.org.uk



Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan

Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**

Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**